Cofnodion Panel Darparwyr 25/03/09 – 1.30yp Ystafell Madog, Coleg Llandrillo

Presennol: Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor (Cadeirydd)
Gwenan Owain, Coleg Llysfasi; Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, CCiO; ; Siwan Hywel, CCiO; Ifor Gruffydd, CCiO; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Sian Eirian, CCiO; Haydn Hughes, CCiO; Llinos Hicks, CHWEA; Dafydd Rhys, CHWEA; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; Caroline Williams, Coleg Meirion Dwyfor; Gary Smith CCiO; Dona Padan, Coleg Llysfasi; Jina Gwyrfai, CCiO; Ellen Roberts, CCiO.

1. **Ymddiheuriadau**: Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; David Jones, Prifysgol Glyndŵr; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Myfi Brier, Coleg Llysfasi; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg.

2. **Cofnodion** Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr yn gywir.

3. **Materion yn codi**
   - Eitem 7 Hyfforddiant - Llawenydd oedd nodi fod aelod o'r Panel, sef Myfi Brier o Goleg Llysfasi wedi derbyn gwobr 'Tiwtor y Flwyddyn' (NIACE), dymuniad y panel oedd ei llongyfarch yn fawr ar y wobr haeddiannol yma.
   - Eitem 9 Cyhoeddusrwydd a Marchnata – mae'r cynlluniau pecyn croeso arfaethedig yn dal i fod ar y bwrdd o safbwynt APADGOS.

4. **Adroddiad y Cyfarwyddwr** – dylai'r Cynulliad roi gwybod i'r Ganolfan cyn Pasg beth yn union fydd ein dyraniad ariannol. Gobeithio felly y gellir rhoi ffigurau drafft i'r darparwyr o fewn y bythefnos nesaf a ffigurau terfynol ym mis Gorffennaf.

5. **Adroddiad y Swyddogion Datblygu** - Croesawyd Jina Gwyrfai yn ôl i'r gwaith a cafwyd adroddiad gan Pam Evans-Hughes gan dynnu sylw penodol at y canlynol:
   - Ar y cyfan mae'r targedau Darpariaeth 08 – 09 yn iawn. Mi fyddwn ni'n trafod efo darparwyr unigol lle mae pryder. Gofynnwyd i'r trefnyddion adael i ni wybod am unrhyw gynlluniau ar gyfer tymor 3 ac ar fyrder os ydynt yn rhagweld trafferthion cyrraedd eu targedau.
   - Diolchwyd i bawb am ddanfon rhaglen ddrafft Darpariaeth 09 – 10 atom. Dim ond ychydig o newidiadau fydd angen.
   - Bydd enghreifftiau o arfer da o safbwynt Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn addysg yn cael eu dosbarthu cyn y Pasg. Bu i Sian a Jina fynychu seminar ar y pwnc a bydd adroddiad a thrafodaeth ar agenda'r cyfarfod darparwyr nesa.
   - Cymraeg i'r Teulu - Mae cwrs blasu 'Hwyl i'r Teulu' yn cael ei ledaenu i Ysgolion newydd yn Wrecsam fel rhan o ddarpariaeth Coleg Iâl.
   - Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Addysg lleol yn Sir y Fflint mae Glannau Dyfrdwy yn peilota 'Hwyl i'r Teulu' i'r grwpiau Dysgu Teuluol mewn ysgolion penodedig.
   - Bydd y cwrs dilyniant byr i 'Hwyl i'r Teulu' ar gael yn nhymor yr haf i ysgolion cymunedau'n gyntaf. Teitl y cwrs – 'Amser cael Hwyl'.
   - Bydd cwrs dros dro a fydd yn cymryd lle Cymraeg i Rieni 1 yn barod i'w ddefnyddio erbyn mis Medi – CHWEA yw'r darparwr.
   - Bydd cwrs newydd i'r teulu lefel mynediad – dwys / darnynol yn barod Medi 2010. Mae'r prosiect wedi mynd allan i dendr.
   - Mae prosiect Cwrs Trochi i Rieni ar y gweill – cwrs 8 wythnos i rieni di Gymraeg sydd yn dewis danfon eu plant i Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy.

6. **Dysgu Anffurfiol** - Aeth Siwan Hywel drwy brif bwyntiau yr adroddiad gafodd ei dosbarthu cyn y cyfarfod (gweler atodiad 1). Eglurwyd mai pwrpas y Paneli Dysgu Anffurfiol oedd dod a phartneriaid lleol at ei gilydd i drafod y ddarpariaeth anffurfiol sy'n bodoli ac i adnabod bylchau. Codwyd cwestiwn am ddisgwyliadau sydd ar diwtoriaid oedd yn cael eu cyflogi am ychydig oriau yr wythnos fynychu digwyddiadau anffurfiol yn wirfoddol a phriodoldeb hynny. Penderfynwyd rhoi'r pwnc yma ar agenda'r panel nesaf.

7. **Hyfforddiant** - cyflwynodd HH adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf gan ddwyn sylw penodol i'r canlynol:
   - Yr arholwr allanol wedi cadarnhau marciau ymgeiswyr Cymhwyster 2008 a phawb wedi llwyddo
   - Modiwlau 1 a 2 o Gymhwyster Cenedlaethol 2008-10 wedi'u cwblhau heblaw am yr ymarfer dysgu.
   - Wedi dechrau recriwtio ar gyfer Cymhwyster Cenedlaethol 2009-10 Modiwl 1-4 o blith tiwtoriaid sydd wedi amlygu fel bod angen hyfforddiant yn dilyn yr arsylwadau. Yr ymateb yn dda hyd yn hyn
   - Dau sesiwn o hyfforddiant undydd ar Gyflwyno ac Ymarfer Iaith wedi eu cynnal, y naill yn Llanbedrog a'r llall ym Mangor. Bu i 21 tiwtor fynychu, sef 33% o'r tiwtoriaid hynny yng Ngwynedd a Môn a gafodd eu harsylwi gan y Ganolfan ym mis Tachwedd 2008. (Adborth: 76% yn nodi ardderchog am y cynnwys; 86% yn nodi ardderchog am y dulliau cyflwyno).
   - Cafodd hyfforddiant ar ddefnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol ei gynnig i nifer fechan iawn, y gobaith yw y bydd y rhai a fynychodd yn rhaeadru'r hyfforddiant i rai eraill sydd a chyfarpar ar gael iddynt.
   - Cynhaliwyd hyfforddiant undydd cyn-arsylwi Conwy a Dinbych yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn Ninbych. Mynychodd 27, sef 60% o'r tiwtoriaid oedd i gael eu harsylwi yn y ddwy sir yma. (Adborth: 78% yn nodi ardderchog am y cynnwys a'r dulliau cyflwyno, ychwanegodd y rhan fwyaf fod yr hyfforddiant wedi'u paratoi'n addas ar gyfer yr arsylwadau).
   - Bydd hyfforddiant ar Gynlluniau Dysgu Unigol yn cael ei gynnig yn Yr Wyddgrug ar Fawrth 27ain. Mae 17 wedi cofrestru i fynychu.
   - Mae rhaglen o hyfforddiant i ddarpar diwtoriaid wedi ei pharatoi. Mae 23 o unigolion eisoes wedi cysylltu i fynegi diddordeb gyda 91% wedi cadarnhau eu bod yn awyddus i addysgu yn yr ardaloedd hynny sydd a phrinder tiwtoriaid CiO, sef gogledd Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam.
   - Bydd cwrs cyfrifiadurol i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynnal yn Stryd y Deon Bangor ar ôl y Pasg. Bydd gwahoddiad yn mynd allan i'r tiwtoriaid cyn diwedd yr wythnos
   - Tri o'r Ganolfan a phedwar tiwtor yn mynychu Cynhadledd Ryngwladol IATEFL sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd yr wythnos nesaf dan nawdd y Ganolfan, mae tiwtoriaid eraill o'r Gogledd yn mynychu fel unigolion neu dan nawdd sefydliad arall. Rhoddwyd y cynnig cyntaf i'r rhai sydd wedi bod yn mynychu sesiynau'r cymhwyster ac roedd yr ymateb yn dda iawn. Bydd Haydn Hughes yn cynnal gweithdy yno.
   - Bydd hyfforddiant i diwtor-drefnyddion ac i diwtoriaid llawn amser/ffracsiynol sydd a dyletswyddau gweinyddol yn cael ei gynnal yng Ngwesty Bryn Howel Llangollen ar Orffennaf 13-15. Gwahoddwyd ceisiadau am hyfforddiant penodol
   - Dosbarthwyd manylion Cynhadledd Addysg Effeithiol Mai 6-8 Llandudno er gwybodaeth www.arsyllfadysgu.com/digwyddiadau/cynhadledd-addysg-eff
   - Cymeradwywyd y Cynllun Hyfforddi gan APADGOS gan roi canmoliaeth uchel i'r broses arsylwi a'r adroddiadau a gynhyrchir yn sgil hynny. Awgrymwyd y dylid sefydlu grŵp ffocws o diwtoriaid i fwydo mewn i'r cynllun ac i'r AHA.

8. **Data** - cyflwynodd GS adroddiad llafar gan dynnu sylw penodol at y canlynol:

- Arholiadau CBAC – mae prosesu ymrestriadau yn golygu gwaith sylweddol i staff y Ganolfan a'r tiwtor/drefnyddion. Mae angen edrych ar y broses a cheisio sicrhau ansawdd cyson y data sy'n cyrraedd y Ganolfan, o bosib drwy gydweithrediad a swyddogion data'r darparwyr.
- Mae canlyniadau arholiad Mynediad Ionawr wedi eu dosbarthu i'r darparwyr drwy'r wefan.
- Gobeithir dosbarthu Ffurflen C yn yr un modd, fe hysbysir y darparwyr pan fyddant ar gael.
- Mae'r mwyafrif o'r darparwyr yn gyrru data misol o ansawdd da i ni yn ddi-drafferth. Mae'n bwysig ein bod yn derbyn data cywir a chyson er mwyn ein galluogi i gynnig cymorth os oes peryg y bydd darparwyr yn cael trafferthion gyda thargedau a chyllido. Os nad yw'r wybodaeth ddiweddaraf gennym, ni allwn fod o gymorth ac mae posibilrwydd i ddarparwyr golli cyllid o beidio cyrraedd eu dargedau.

9. **Cyhoeddusrwydd a Marchnata** - Byddai gohebwyr cylchgrawn ar-lein 'Y Tiwtor' yn croesawu mewnbwn gan weithwyr CiO, mae straeon lleol yn allweddol. Trefnwyd cyfres o hysbysebion ym mis Ionawr gostiodd oddeutu £7,000. Gofynnwyd i'r panel beth fu'r effaith? Atebwyd eu bod wedi bod o fudd mawr i Brifysgol Bangor, dywedodd cynrychiolydd CHWEA na chawsant hwy fawr o ymateb ond nid oedd ganddynt lawer o gyrsiau.

10. **Cyrsiau Ymwybyddiaeth Iaith** - cafwyd cyflwyniad gan Dafydd Rhys o Goleg Harlech, CHWEA. Eglurodd sut yr oedd ymweliad a llwyth y Mandam yng Ngogledd yr Amerig wedi ysbrydoli'r ddogfen a gyflwynodd i'r Panel. Ynddo cafwyd manylion tair uned y mae CHWEA yn eu cynnig:
    - Uned 'Ymwybyddiaeth Iaith' mewn cydweithrediad a RhCA sy'n cael ei pheilota ar hyn o bryd a gellir ei gynnig fel cwrs 3 chredyd 15 awr cyswllt ar ei ben ei hun neu fel cyflwyniad neu atgyfnerthiad i gyrsiau Cymraeg i Oedolion.
    - Unedau 'Defnyddio dwy iaith wrth weithio' – 9 uned 1 credyd (5 awr cyswllt) ar dair lefel sy'n hwyluso dysgu gwahaniaethol ar sail defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith. Gellir eu hymgorffori mewn unrhyw gwrs o gelf i gyfrifiaduron gan sicrhau fod pawb yn y dosbarth yn gwneud cynnydd o safbwynt defnydd y Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith.
    - Unedau 'Diwydiant celfyddydol mewn cymuned ddwyieithog' – uned 9 credyd (45 awr cyswllt) hyblyg gydag ymwybyddiaeth iaith yn greiddiol iddynt. Nid oes ystyriaeth wedi ei roi i ddefnyddio'r cyrsiau fel rhan o ddarpariaeth CiO ond byddent yn plethu'n dda iawn a byddai'n bosib pontio.

11. **Materion i sylw'r Panel Adnoddau Cenedlaethol** – bwriedir peilota Prosiect Oriel Môn yn yr Haf 2009.

12. **Unrhyw Fater Arall** – Byddai Siwan Hywel yn falch o dderbyn manylion unrhyw ddigwyddiadau allgyrsiol sy'n cael eu trefnu.

13. Cyfarfod nesaf i'w gynnal Dydd Mercher 17eg Mehefin 2009 am 1.30 y.p. yn Ystafell Madog, Coleg Llandrillo.

Atodiad 1

Adroddiad SiwanHywel, Swyddog Dysgu Anffurfiol

MÔN

- Wedi bod yn cydweithio gyda CEFNIaith- grŵp sydd yn cael ei arwain gan Gymunedau'n Gyntaf Ward Tudur Llangefni a Menter Iaith Môn yn bennaf er mwyn creu mwy o gyfleoedd i rieni'r ardal i ymarfer eu Cymraeg gyda'u plant mewn gwahanol weithgareddau.

GWYNEDD

- Lansiwyd Y Felin Sgwrsio yn Y Felinheli ar ddiwedd Ionawr, mae'r adnodd hwn yn cynnig cyfleoedd gwych i ddysgwyr a Chymry Cymraeg ddod at ei gilydd i ymarfer a defnyddio'u Cymraeg yn anffurfiol.
- Clwb y Dysgwyr ar gyfer staff (yn bennaf) ym Mhrifysgol Bangor wedi ei sefydlu.
- Mae holiadur wedi eu rhannu allan, a grwpiau ffocws yn cael eu trefnu yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Byddaf yn cydweithio yn agos a'r coleg er mwyn creu gweithgareddau ar gyfer dysgwyr y coleg.
- Hwyl a Hamdden. Prosiect a gafodd ei dendro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gwmni iaith Cyf yw Hwyl a Hamdden gyda'r bwriad i dargedu rhieni sydd ddim o ddewis yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u plentyn. Cynhaliwyd y grwpiau mewn llawer o ardaloedd yn y Gogledd, a bûm yn cydweithio gyda grwpiau Pwllheli, Porthmadog a Bangor er mwyn sicrhau dilyniant. Mae Cymunedau'n Gyntaf ym Mhwllheli wedi cytuno i ariannu sesiynau dilynol. Mae gobaith o sefydlu Clwb Gwawr ym Mhorthmadog ac mae criw Bangor yn awyddus i ddal i gyfarfod gyda rhai (gobeithio) wedi cofrestru ar gwrs 'I Understan it but I don't speak it'.

WRECSAM

- Mae trafodaethau gyda Choleg Iâl ,Prifysgol Glyndŵr a Menter Iaith Maelor i drefnu digwyddiad ar gyfer dechreuwyr yn ardal Wrecsam ar Fai 9fed.

SIR Y FFLINT

- Clwb ar gyfer Dechreuwyr (CLWB CD) wedi ei sefydlu yn Sir y Fflint ar y cyd a Phopeth Cymraeg, Menter iaith Sir y Fflint a Choleg Glannau Dyfrdwy. Bydd y Clwb yn cwrdd yn fisol mewn gwahanol ardaloedd yn y sir.

CYFFREDINOL

- Bûm yn mynychu sioeau Cyw S4/C a Twf yr wythnos diwethaf- llawer o rieni yn awyddus i ddysgu Cymraeg ac yn bennaf gyda diddordeb i ddilyn cwrs ar gyfer Rhieni.
- Gwefan newydd ar gyfer dysgwyr ar wefan S4/C- www.s4c.co.uk. Gwefan hynod o hawdd i'w defnyddio ar gyfer gwahanol lefelau ac ardaloedd.
- Wedi bod yn mynychu Fforymau Sirol sydd yn cael eu cynnal ymhob sir. Yn bennaf, partneriaid Bwrdd Yr Iaith Gymraeg sydd yn bresennol yn y Fforymau hyn. Mae'n gyfle da i drafod cydweithio, gan osgoi dyblygu gwaith neu weithgareddau.
- Paneli Dysgu Anffurfiol wedi cwrdd dwywaith (oni bai am Ddinbych a Chonwy. Dyddiadau'r nesaf:
  Conwy a Dinbych: 10, Ebrill 23ain, yn swyddfa Menter Iaith Conwy.
  Wrecsam a Fflint: 2, Mehefin 3ydd, Lleoliad i'w gadarnhau
  Mon a Gwynedd: 10.30, Gorffennaf 7fed, Lleoliad i'w gadarnhau
- EISTEDDFODAU
  Cynhaliwyd dwy Eisteddfod ar gyfer dysgwyr yn ddiweddar.
  Eisteddfod datod Tafod: Cynhaliwyd yr Eisteddfod hon am y tro cyntaf erioed gan grŵp o ddysgwyr sydd wedi bod yn cwrdd ers peth amser bellach yn ardal Talysarn, Nantlle. Eisteddfod fach oedd hi, ond mae'n werth cofio fod hyn yn gyfle da i'w chynnal ar raddfa fwy'r flwyddyn nesaf, os oes digon o ddiddordeb
  Eisteddfod Dysgwyr y gogledd ddwyrain: Cynhaliwyd yr Eisteddfod eto eleni. Llwyddiant mawr gyda bron i 100 o ddysgwyr yn bresennol. Bydda'i wedi bod yn braf gweld mwy o diwtoriaid yno.

Minutes of the Provider Panel 25/03/09 – 1.30p.m. Madog Room, Coleg Llandrillo

Present: Elwyn Hughes, Bangor University (Chair)
Gwenan Owain, Coleg Llysfasi; Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, WfAC; Siwan Hywel, WfAC; Ifor Gruffydd, WfAC; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Siân Eirian, WfAC; Haydn Hughes, WfAC; Llinos Hicks, CHWEA; Dafydd Rhys, CHWEA; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; Caroline Williams, Coleg Meirion Dwyfor; Gary Smith WfAC; Dona Padan, Coleg Llysfasi; Jina Gwyrfai, WfAC; Ellen Roberts, WfAC.

1. **Apologies**: Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; David Jones, Glyndŵr University; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Myfi Brier, Coleg Llysfasi; Ioan Talfryn, Popeth Cymraeg.

2. **Minutes** The minutes of the meeting held on 14 January were confirmed as correct.

3. **Matters Arising**
   - Item 7 Training – It was a pleasure to note that a member of the Panel, Myfi Brier from Coleg Llysfasi, had been awarded the prize of 'Tutor of the Year' (NIACE); the panel wished to congratulate her very much on receiving this well-deserved prize.
   - Item 9 Publicity and Marketing – the plans for the proposed welcome pack are still on the table as far as DCELLS is concerned.

4. **Director's Report** – the Assembly should inform the Centre before Easter what our precise financial allocation will be. It is hoped therefore that provisional figures may be given to providers in the next fortnight and final figures in July.

5. **Development Officers Report** - Jina Gwyrfai was welcomed back to work and a report was received from Pam Evans-Hughes drawing particular attention to the following:
   - On the whole the 08-09 provision targets are alright. We shall discuss with individual providers where there is concern. The organizers were asked to let us know about any plans for Term 3 and to do so very soon if they foresaw difficulties in achieving their targets.
   - All were thanked for sending their 09 – 10 provision draft programmes to us. Only a few changes will be required.
   - Examples of good practice with regard to Sustainable Development and Global Citizenship in education will be distributed before Easter. Siân and Jina attended a seminar on the subject and there will be a report and discussion on the agenda of the next provider meeting.
   - Welsh for the Family – The 'Fun for the Family' taster course is being extended to new schools in Wrexham as part of Coleg Iâl provision.
   - In partnership with the Local Education Authority in Flintshire, Deeside is piloting 'Fun for the Family' to the Family Learning groups in specified schools.
   - The short follow-up course to 'Fun for the Family' will be available in the summer term for Communities First schools. The title of the course - 'Time for Fun'.
   - A temporary course that will replace 'Welsh for Parents 1' will be ready for use in September – CHWEA is the provider.
   - There will be a new access level course for the family – intensive / segmented ready in September 2010. The project has gone out to tender.
   - An Immersion Course for Parents is being planned – an 8 week course for non-Welsh speaking parents who are choosing to send their children to Ysgol Glan Clwyd, St Asaph.

6. **Informal Learning** - Siwan Hywel went through the main points of the report that was distributed prior to the meeting (see appendix 1). It was explained that the purpose of the Informal Learning Panels was to bring local partners together to discuss the informal provision that exists and to identify gaps. A question was raised in relation to the expectations upon tutors, that were employed for just a few hours a week, to attend events on a voluntary basis and whether that was appropriate. It was decided to place this subject on the agenda of the next panel.

7. **Training** - HH gave a verbal report on the latest situation drawing specific attention to the following:
   - The external examiner has confirmed the marks of the 2008 Qualification candidates and all have passed.
   - Modules 1 and 2 of the 2008-10 National Qualification have been completed with the exception of the teaching practice.
   - Recruitment has commenced for the 2009-10 National Qualification Modules 1-4 from amongst tutors who had been shown to require training following the observations. The response has been good thus far.
   - Two one-day training sessions have been held on Language Introduction and Practice, one in Llanbedrog and the other at Bangor. 21 tutors attended, which represented 33% of those tutors in Gwynedd and Anglesey who were observed by the Centre in November 2008. (Feedback: 76% awarded excellent for the content; 86% awarded excellent for the presentation methods).
   - Training was offered in the use of the Interactive White Board to a very small number; it is hoped those who attended will cascade the training to others who have access to the equipment.
   - Conwy and Denbigh one-day pre-observation training was held at the Clwyd Language Centre in Denbigh. 27 attended, that is 60% of the tutors due to be observed in these two counties. (Feedback: 78% awarded excellent for the content and the presentation methods; the majority added that they had been appropriately prepared for the observations).
   - Training on Individual Learning Plans will be offered in Mold on 27th March. 17 have registered to attend.
   - A training programme for potential tutors has been drawn up. 23 people have already been in contact to express an interest with 91% confirming they are keen to teach in those areas that are short of WfA tutors, namely North Anglesey, Conwy, Denbigh, Flint and Wrexham.
   - A computer course for Welsh for Adults tutors will be held in Dean Street Bangor after Easter. An invitation will be sent out to tutors before the end of the week.
   - Three of the staff from the Centre and four tutors will attend the IATEFL International Conference due to be held in Cardiff next week sponsored by the Centre; other tutors from North Wales will attend as individuals or sponsored by another organization. The opportunity was first offered to those who had been attending the qualification sessions and the response was very good. Haydn Hughes will be holding a workshop there.
   - Training will be held for tutor-organizers and for full time/fractional tutors, who have administrative duties, at Bryn Howel Hotel Llangollen on July 13-15. Applications for specific training were invited.
   - For information details were distributed of the Effective Education Conference due to be held on May 6-8 at Llandudno www.arsyllfadysgu.com/digwyddiadau/cynhadledd-addysg-eff
   - The Training Scheme was approved by DCELLS and both the observation programme and the reports produced as a result were highly commended. It was

suggested that a focus group of tutors be formed to feed into the scheme and to the Department of Training and Education.

8. **Data** - GS presented a verbal report highlighting the following in particular:
   - WJEC examinations – processing enrolments involves considerable work for the Centre's staff and the tutor/organizers. The process needs to be examined and an effort made to ensure the quality of the data which reaches the Centre is consistent, possibly through working with the providers' data officers.
   - The January Access examination results have been distributed to the providers via the website.
   - It is hoped the C Form will be distributed in the same way; providers will be informed when these are available.
   - The majority of providers send us good quality, monthly data without a problem. It is important that we receive correct and regular data in order to enable us to offer help if there is a risk that providers may have difficulties with targets and funding. If we do not have the latest information, we cannot be of assistance and there is a possibility that providers will lose funding through failing to achieve their targets.

9. **Publicity and Marketing** - Correspondents for the on-line magazine, 'Y Tiwtor', would welcome input from WfA employees; local stories are vital.
   A series of advertisements was arranged for January that cost approximately £7,000. The panel was asked what the impact had been. The reply was that they had been very profitable for Bangor University; the CHWEA representative said they had not seen much response but that they did not have many courses.

10. **Language Awareness Courses** - there was a presentation by Dafydd Rhys from CHWEA, Coleg Harlech. He explained how a visit to the Mandam tribe in North America had inspired the document he presented to the Panel. In it were details of three units that CHWEA offers:
    - 'Language Awareness' unit, in cooperation with OCN, that is being piloted at present and it can be offered as a stand-alone, 15 hour contact time, 3 credit course or as an introduction or consolidation for Welsh for Adults courses.
    - 'Using two languages at work' units – 9 1-credit units (5 contact hours) on three levels that facilitate differentiated learning on the basis of the use of Welsh and language awareness. They can be incorporated into any course from art to computers ensuring that everyone in the class makes progress in relation to the use of Welsh and language awareness.
    - 'Arts industry in a bilingual community' units – a flexible 9 credit unit (45 contact hours) within which language awareness is an essential component. No consideration has been given to using the courses as part of WfA provision but they would tie in well and it might be possible to form a connection.

11. **Issues for the attention of the National Resource Panel** – it is intended that the Oriel Môn project will be piloted in the summer of 2009.

12. **Any Other Business** – Siwan Hywel would be pleased to receive details of any extracurricular activities that were being arranged.

13. The next meeting would be held on Wednesday, 17th June 2009, at 1.30p.m. in Ystafell Madog, Coleg Llandrillo.

Appendix 1

Report by Siwan Hywel, Informal Learning Officer

ANGLESEY

- I have been working with CEFNIaith – a group that is mainly led by Llangefni Tudur Ward Communities First and Menter Iaith Môn in order to create more opportunities for the parents of the area to practise their Welsh with their children in different activities.

GWYNEDD

- Y Felin Sgwrsio (*the Conversation Mill)* was launched in Port Dinorwic at the end of January. This resource offers excellent opportunities for learners and Welsh speaking Welsh people to get together to practise and use their Welsh informally.
- The Learners' Club for staff (mainly) has been established at Bangor University.
- A questionnaire has been distributed, and focus groups are being arranged in Coleg Meirion Dwyfor. I shall be working closely with the college in order to organise activities for the learners at the college.
- Hwyl a Hamdden (*Fun and Leisure*). Hwyl a Hamdden is a project tendered by the Welsh Language Board to Cwmni iaith Cyf with the aim of targeting parents who do not use Welsh, out of choice, with their child. The groups have been held in many districts in North Wales, and I have been working with groups in Pwllheli, Porthmadog and Bangor in order to ensure continuity. Communities First at Pwllheli has agreed to fund follow-up sessions. There is a possibility of establishing Clwb Gwawr at Porthmadog and the Bangor group is keen to continue to meet with some (hopefully) having registered on an 'I understand it but I don't speak it' course.

WREXHAM

- Discussions are taking place with Coleg Iâl, Glyndŵr University and Menter Iaith Maelor to organise an event for beginners in the Wrexham area on the 9th of May.

FLINTSHIRE

- A Club for Beginners (CLWB CD) has been set up in Flintshire jointly with Popeth Cymraeg, Menter Iaith Sir y Fflint and Coleg Glannau Dyfrdwy. The club will meet monthly in different parts of the county.

GENERAL

- I attended Cyw S4/C and Twf shows last week – many parents are keen to learn Welsh and mainly interested in following a course for Parents.
- A new website for learners on the S4/C website - www.s4c.co.uk. A website that is remarkably easy to use for different levels and different areas.
- I have been attending County Forums that are held in every county. In these Forums it is partners of the Welsh Language Board that are present in the main. It is a good opportunity to discuss working together, and thus avoid duplication of work or activities.
- The Informal Learning Panels have met twice (apart from Denbigh and Conwy). The dates of the next meetings:
  Conwy and Denbigh: 10.00am, 23rd April, at the Menter Iaith Conwy office.
  Wrexham and Flint: 2.00pm, 3rd June, venue to be confirmed.
  Anglesey and Gwynedd: 10.30am, 7th July, venue to be confirmed.

EISTEDDFODAU

Two Eisteddfods have been held for learners recently.

Eisteddfod datod Tafod (*releasing the tongue*) : This Eisteddfod was held for the first time ever by a group of learners who have been meeting for some time in the Talysarn area in Nantlle. It was a small Eisteddfod, but it is worth remembering that this is a good opportunity to hold it on a larger scale next year, if there is sufficient interest.

The North-East Learners Eisteddfod: The Eisteddfod was held again this year. It was a great success with nearly 100 learners attending. It would have been nice to see more tutors there.